26. YR HYN A WNAETH BETSI
(Stori o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg)

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd cadw dyddiadur yn boblogaidd iawn. Merch fach oedd Betsi Gurney pan ddechreuodd gadw ei llyfr bach cudd. Ar y dechrau roedd yn dipyn o orchwyl, ond cyn hir daeth yn bleser. Ni fyddai'r dyddiadur byth yn ei cheryddu na gofyn cwestiynau anodd. Gallai ddweud unrhyw beth wrtho heb i neb arall wybod. Gwyddai'r dyddiadur beth roedd Betsi am ei wneud yn ei bywyd; gwyddai hefyd ei bod yn ofni'r tywyllwch. Ac ofn y môr. Ac ofn marw. Gwyddai hefyd am ei hunllef bob nos lle câi ei hysgubo allan i'r môr cyn brwydro â'r tonnau a boddi.

Un Chwefror cyfarfu Betsi â phregethwr teithiol o'r enw William. Buont yn sgwrsio, ac am y tro cyntaf synhwyrodd gariad Duw.

'Yr wyf wedi *teimlo* fod yna Dduw,' ysgrifennodd yn ei dyddiadur. Y noson honno cafodd yr un freuddwyd unwaith eto. Ond y tro hwn yr oedd diwedd y freuddwyd yn wahanol. Yn hytrach na chael ei chludo allan i'r môr a boddi, gwelodd ei hun yn sefyll mewn man diogel tu hwnt i afael y tonnau.

Ond a fyddai'r tawelwch hwn yn parhau? Ni chafodd gyfle i dreulio llawer o amser gyda'i dyddiadur yn ystod y ddau fis canlynol

oherwydd i'w thad fynd â hi i Lundain. (Yr oedd ei thad wedi sylwi nad oedd Betsi'n hapus iawn yn ddiweddar.) Dinas yn llawn cyffro oedd Llundain a mwynhaodd Betsi ei harhosiad yno. Ond pan ddychwelodd adref yr oedd ganddi rywbeth llawer pwysicach i'w ysgrifennu yn ei dyddiadur. Ers iddi siarad â William ddau fis ynghynt ni chafodd ragor o hunllefau. Yr oedd Duw wedi rhoi terfyn arnynt. 'Fe ddylai, am wn i, wneud fy ffydd yn gadarn,' ysgrifennodd.

Flynyddoedd yn ddiweddarach yr oedd Betsi (câi ei hadnabod fel Elizabeth erbyn hyn) yn ôl yn Llundain, ac yn wraig i Mr Joseph Fry ac yn fam i ddeg o blant. Nid yn unig yr oedd ei ffydd yn dal yn gryf, roedd yn parhau rywfodd i ganfod amser i gofnodi yn ei dyddiadur.

'Yr wyf wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn sefydlu ysgol yn Newgate ar gyfer plant y carcharorion tlawd,' cofnododd yn 1817.

Am stori enfawr oedd yna y tu ôl i'r geiriau hynny!

Y mis Ionawr hwnnw yr oedd Elizabeth wedi gadael clydwch ei chartref a bwrlwm y plant ac wedi mynd i ymweld â rhai o drigolion mwyaf truenus y ddinas; y gwragedd a garcharwyd, ynghyd â'u plant bach, oedd yn byw dan amodau ffiaidd yng ngharchar Newgate.

Tybiai'r ceidwaid ei bod yn wallgof pan fynnodd gael mynd i mewn at y gwragedd ar ei phen ei hunan. Onid oedd y sŵn yn ddigon i'w dychryn? Roedd anifeiliaid yn ymddwyn yn well na'r gwragedd hyn! Treulient eu hamser yn yfed ac yn ymladd. Nid âi, hyd yn oed, y llywodraethwr ei hunan trwy byrth y carchar heb rywun i'w warchod.

Ond nid oedd modd ymresymu ag Elizabeth. Mynnodd gael mynd i mewn atynt. Wnâi hi ddim tynnu ei horiawr aur a'i rhoi mewn man diogel hyd yn oed.

Tu mewn i'r pyrth tyrrodd y carcharorion o'i hamgylch gan rythu arni. Gwthiwyd hi. Gafaelwyd yn ei gwisg. Beth ddigwyddai nesaf? 'Fe geision ni ei rhybuddio,' meddai'r ceidwaid gan ysgwyd eu pennau.

Un symudiad anghywir roedd ei angen i'r sefyllfa droi'n llanast llwyr. Ond dangosodd Duw i Elizabeth beth i'w wneud. Ar flaen y dyrfa yr oedd yna nifer o blant budr a charpiog. Cododd y plentyn

lleiaf i'w breichiau. 'Oes yna rywbeth allwn ni ei wneud dros y rhai bychain yma?' gofynnodd. 'Ydych chi am i'r plant hyn dyfu i fyny yn garcharorion eu hunain?'

Peidiodd y gwthio a'r tynnu. Syfrdanwyd y ceidwaid, profodd y gwragedd gwyllt eu bod yn ddynol wedi'r cyfan. Wrth gwrs yr oeddynt am fywyd gwell i'w plant. Dros yr oriau nesaf bu Elizabeth Fry a'r carcharorion yn trafod y mater. Dywedodd wrthynt am Iesu. Darllenodd rannau o'r Beibl iddynt. A gyda'i gilydd gwnaethant gynllun ar gyfer ysgol yn y carchar lle gallai'r plant ddysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu.

Yr oedd yr ysgol honno'n ddechrau pennod newydd mewn hanes – hwn oedd y cam cyntaf o lu o newidiadau yng nghyflwr y carchardai.

'Ymddengys fod yna fendith ryfeddol wedi deillio o'm pryder ynglŷn â'r carchardai,' ysgrifennodd Elizabeth yn ei dyddiadur. Yr oedd y ferch fu unwaith yn brwydro â'i hofnau wedi llwyddo i gyflawni rhyfeddodau mawr. Gall cymaint mwy gael ei gyflawni pan gymer Duw reolaeth dros ein bywydau.

HYD: 4 munud

NEGES: Trwy ffydd fe allwn wneud pethau mawr tros Dduw.

DARLLEN: Hebreaid 11: 23–40

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Ganed Elizabeth Fry yn 1780 a bu farw yn 1845. Yr oedd ei thad yn Grynwr a gweithiai mewn banc yn Norwich. Priododd hithau â Chrynwr. Daeth Elizabeth ei hunan yn 'weinidog' ar Gymdeithas y Cyfeillion. Teithiodd yn eang i ehangu ei gwaith yn diwygio carchardai. Trwy ei hymdrechion diwigiwyd nifer o garchardai gartref a thramor.